# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 20 Hydref 2015

Amser: 08.30 - 08.44

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)<br>Paul Davies<br>Jane Hutt<br>Elin Jones<br>Aled Roberts |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn<br>Peter Greening, Llywodraeth Cymru |

# 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth am y newidiadau i Fusnes y Llywodraeth ddydd Mawrth.

Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 11 Tachwedd 2015 -**

- Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2016/17 (30 munud)

**Dydd Mercher 18 Tachwedd 2015 -**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)

## 4 Y Rheolau Sefydlog

### 4.1 Maint Pwyllgorau

Ystyriodd y Rheolwyr Busnes bapur yn nodi'r darpariaethau perthnasol a'r posibiliadau mewn perthynas â maint pwyllgorau. Nododd y Rheolwyr Busnes y byddent yn hoffi ymchwilio ymhellach i'r posibilrwydd o newid y nifer sydd ei angen i ffurfio grŵp a chytunwyd y byddai unrhyw argymhellion a wneir ynghylch mater hwn yn rhan o'i adroddiad etifeddiaeth.

## Unrhyw fater arall

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa gan y Llywydd o'r protocol ar gyfer grwpio cwestiynau gan annog y Rheolwyr Busnes i sicrhau bod yr Aelodau yn ymwybodol o unrhyw gwestiynau a gaiff eu grwpio.

Cadarnhaodd y Llywydd y byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i roi gwybod i'r Rheolwyr Busnes pe bai cwestiynau a gafodd eu grwpio yn cael eu dadgrwpio yn ystod y Cyfarfod Llawn.